

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL
5 Mawrth 2018 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn.

2. DATGAN DIDDORDEB

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8 Ionawr 2018 Cynnig: Llio Griffiths
Eiio: Dafydd Watts

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Watts, Llio Griffiths, Richard Jones, Rhydwen Roberts,
Nia Povey
Cadeirio: Glyn Griiffiths

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Torri Coed B45110 a Brondanw i Croesor

Ymddengys nad yw'r coed ar y B45110 i gyfeiriad Tanybwlech wedi cael eu torri.

Mae peth gwaith wedi ei wneud ar ffordd Croesor.

Mis Mehefin a Gorffennaf yw'r adeg orau i wneud y toriad, ac felly awgrymwyd fod y Clerc yn gofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau fod y gwaith ar gyfer y flwyddyn hon yn cael ei wneud yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf eleni.

Gellir trafod y tyfiant ar ffordd Croesor gyda cynrychiolwyr Ymddiriedolwyr Portmeirion pan yn mynychu ar gyfer cyfarfod mis Mai. Mae hanes o goed wedi symud a cherrig wedi malu ar hyd y ffordd.

4.2 Bws Cymunedol

Rhannodd y Cynghorydd Dafydd Watts ganlyniadau holiadur ar y defnydd o'r bws yn lleol.

Dywedodd hefyd y byddai cynrychiolydd o Gludiant Cymunedol Cymru yn fodlon dod i siarad â'r Cyngor Cymuned am eu prosiect newydd, Cysylltu Cymunedau. Bwriad y prosiect yma yw edrych ar ddatrysiadau gwahanol i'r sialens o ddarparu gwasanaeth bws mewn cymunedau gwledig, e.e. darparu bws tebyg i fws arfordir Llyn, sy'n rhedeg yn ôl y galw.

4.3 Cyfarfod Ymddiriedolaeth Clough Williams Ellis a Maes Parcio Brondanw

Nid oedd hi'n bosibl trefnu cyfarfod efo Balfours, asiant yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y mis hwn. Gobeithir y byddant yn medru mynychu cyfarfod mis Mai.

Mae cais am grant i gael maes parcio newydd ar gyfer Plas Brondanw wrthi'n cael ei wneud, a gofynnwyd i'r clerwr ddanfôn llythyr yn ei gefnogi.

4.4 Cwyn yn erbyn Swyddfa Archwilio Cymru

Mae ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg yn parhau. Gobeithiant gyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd hi'n gryn amser felly cyn y bydd y mater yma yn cael ei ddatrys.

4.5 Arosfan Fysiau

Does gan Gyngor Gwynedd ddim gwrthwynebiad i unrhyw loches fws arfaethedig gael ei defnyddio fel lloches a'r defnyddwyr yna yn croesi i ochr arall y ffordd i ddal y bws. Serch hynny, cyndabyddir nad yw hyn yn ddatrysiad perffaith.

Gan mai Cerbydau Gwynfor sydd bellach yn gweithredu'r gwasanaeth bws, gofynnwyd i'r Clerwr ysgrifennu atynt er mwyn gweld a fyddent yn fodlon cefnogi defnyddio'r siop fel arosfan, gan fod lle i droi yno a chysgod.

4.6 Cyflenwad Trydan y Plwyf

Cytunwyd fod angen ail-edrych ar y diffiniad o "Blwyfolyn", gan fod y ffioedd claddu yn rhatach iddynt hwy.

Cafwyd ateb gan SP Energy Networks yn egluro'r toriadau i'r cyflenwad trydan a fu yn ystod y misoedd diwethaf:-,

- 16 Ionawr 2018- nam mewn cysylltiad rhwng gwifren uwchben ac o dan ddear
- 20 Rhagfyr 2017 – polyn trydan wedi disgyn
- 16 Hydref 2017 – Storm Ophelia. Coeden yn disgyn ar offer cyflenwi trydan

4.7 Damwain Cerbyd Wiltshire Foods

Mae'r Clerc yn parhau i ddisgwyl ateb ganddynt am ddamwain eu cerbyd, ac wedi ysgrifennu atynt drwy lythyr a/neu e-bost o leiaf 4 gwaith.

4.8 Mynwent Tan Lan

Ffioedd Claddu

Cafwyd trafodaeth ar ffioedd claddu ym Mynwent Tan Lan. Penderfynwyd fod angen adolygu'r ffioedd claddu oherwydd fod y llefydd gwag yn y fynwent yn prinhau, er mwyn gwneud cynnal a chadw, ac ar gyfer unrhyw addasiadau i'r fynwent a fyddai angen eu gwneud yn y dyfodol.

Addaswyd y ffioedd claddu fel a ganlyn:-

Bedd dwfn i hyd at 3	FFI HYD AT 31/3/18		FFI O 1/4/18	
	Plwyfolion	Eraill	Plwyfolion	Eraill
1	£1110	£1500	£1210	£1700
2	£1090	£1300	£1190	£1500
3	£1090	£1300	£1190	£1500
Bedd dwfn i hyd at 2				
1	£1050	£1500	£1150	£1700
2	£1040	£1300	£1140	£1500

Ni fydd tâl am gladdu plentyn, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu'r tâl yma.

Diffiniad o Blwyfolyn

Cytunwyd diffinio "Plwyfolyn" fel:-

"Person sydd wedi preswyllo ym mhlwyf Llanfrothen, ac yn byw ym mhlwyf Llanfrothen ar adeg eu marwolaeth, neu sydd wedi byw ym mhlwyf Llanfrothen ac wedi gorfod gadael y plwyf ac yn byw mewn cartref preswyl neu nyrsio y tu allan i'r Plwyf, am resymau meddygol neu gofal, ar adeg eu marwolaeth."

Torri Gwair

Cafwyd trafodaeth ar drefniadau torri gwair y fynwent. Cytunwyd fod angen diweddarau'r trefniadau edrych eto ar y trefniadau yma. Penderfynwyd fod angen gnweud o eiaf 5 toriad y flwyddyn, a bod y rhain yn cael eu gwasgaru'n gymharol hafal yn ystod misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst, Medi bob blwyddyn.

Mae angen hefyd torri llechwedd y fynwent, gan fod brwyn wedi tyfu o'r cae uwchben ac yn ymwreiddio yn y llechwedd.

Cytunwyd hefyd fod angen defnyddio chwynladdwr ddwywiath y fwyddyn er mwyn rhwystr tyfiant coed yn y beddau eu hunain.

Blodau i'r fynwent

Awgrymodd y Cyngorydd Llio Griffiths y dylid prynu dwy gasgen flodau l'r fynwent ac fe gytunwyd,

4.9 Pant yr Allt, Ffordd Morfa

Mae swyddogion gorfodaeth adran gynllunio Cyngor Gwynedd wrthi'n cynnal ymchwiliad ac yn gwneud ymholiadau i'r defnydd o Pant yr Allt.

4.10 Parcio ar y ffordd, Llanfrothen

Ni all Cyngor Gwynedd rwystro parcio ar y ffordd, ond byddant yn monitro'r sefyllfa.

4.11 Cyflwr 13 Garreg Frech

Disgwylir ateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd. Bwriadant ymweld â'r safle yn fuan.

4.12 Cyflwr y Ffordd i Tyddyn Gwyn

Bwriedir clytio'r ffordd yma yn y dyfodol, ond bydd pryd yn dibynnu ar flaenoriaethau a rhestr waith Cyngor Gwynedd

4.13 Tipio Slei Bach, Teras ger Roman Road

Mae tipio slei bach yn digwydd ger Teras Roman Road. Adroddwyd y mater i Gyngor Gwynedd.

6. Materion Ariannol

6.1 SSE bil 22 Rhagfyr 2017 £42.74 – ad-dalu'r Clerc

6.2 Baner Cymru, Midland Flags £79.99

a Ifanc, Yr Wylan, Ysgol Llanfrothen

Cytunwyd i roi:-

- £25.00 i Wyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog,
- £25.00i'r Ffermwyr Ifanc,
- £150.00 i Ysgol Llanforthen
- £65.00 I'r Wylan

6.3 Cyflog y Clerc

Penderfynwyd gohirio trafod y mater yma tan y cyfarfod nesaf.

6.4 Derbyniwyd £30.00 mewn arian parod gan Babis Brothen am logi'r Neuadd gymunedol.

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Cynnal a Chadw Llwybrau.

Mae angen penderfynu pa lwybrau sydd yn cael eu torri, pa mor aml, gan bwy ac am ba gost.

8.2 Gwynedd Ddigidol – Mynediad i Bawb

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon cyfrannu at gost gosod offer wi-fi mewn adeiladau cymunedol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r adeilad cymunedol fod ar agor i'r cyhoedd am nifer o oriau'r wythnos.

Penderfynwyd nad oedd hyn yn addas ar gyfer y Ganolfan gymdeithasol na'r siop.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 14 Mai 2018, am 7:30 yh.